

ROWLANDS, GRIFFITH (1761 - 1828), llawfeddyg



Enw: Griffith Rowlands
Dyddiad geni: 1761
Dyddiad marw: 1828
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: llawfeddyg
Maes gweithgaredd: Meddygaeth
Awdur: Melfyn Richard Williams

Ganwyd ef ym mhlwyf Llanfair ger Harlech, Meirionnydd, ar 9 Ebrill 1761. Wedi bwrw ei brentisiaeth fel llawfeddyg yn Lerpwl, llwyddodd i ennill lle iddo'i hun yn ysbyty Bartholomew, Llundain. Wedi cwblhau saith mlynedd o addysg feddygol fe'i derbyniwyd ef ar 1 Awst 1782 yn aelod o Gwmni Llawfeddygon Llundain, rhagflaenydd Coleg Brenhinol y Llawfeddygon. Bu'n llawfeddyg tŷ yn yr ysbyty yn Llundain am ddwy fl. cyn ymsefydlu fel llawfeddyg yng Nghaer. Yn 1785 apwyntiwyd ef yn llawfeddyg i glafdy'r ddinas a bu yn y swydd am 43 o fl.

Yr oedd Griffith Rowlands yn un o'r rhai cyntaf yn Ewrop i drin toriad clun trwy lifio i ffwrdd ddau ben yr asgwrn ar y naill ochr i'r toriad i sicrhau gwell cyswllt - a hynny dros hanner can mlynedd cyn cyfnod anaestheteg. O dan ei driniaeth ef y torrwyd ymaith fawd chwith **Thomas Charles** o'r Bala yn 1799. Yr oedd y bawd wedi rhewi wrth i **Thomas Charles** deithio ar noson rewlyd dros fynyddoedd y Migneint rhwng siroedd Arfon a Meirion. Gyda chymorth Rowlands hefyd y tynnwyd carreg yn pwyso dwy owns a chwarter o bledren **Thomas Jones** o Ddinbych yn 1802.

Er mai yn Lloegr y treuliodd ran helaethaf ei oes, ni cholodd ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a bu'n ŵr amlwg yng ngweithrediadau Cymrodorion Caer.

Bu farw 29 Mawrth 1828 o fewn ychydig ddyddiau i fod yn 66 mlwydd oed.

Awdur

Melfyn Richard Williams

Ffynonellau

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru (Aberdŵr 1867-70)*, ii, 526-7

G. P. Jones, *Newyn a Haint yng Ngymru a phynciau meddygol eraill* (Caernarfon 1962), 161-63

Thomas Jones, Idwal Jones (gol.), *Hunangofiant y Parch. Thomas Jones Gweinidog yr Efengyl o dref Dinbych: hanes ei fywyd a 'sgrifenydd ganddo ef ei hun, ar ddymuniad ei gyfaill Mr. Charles, hyd amser marwolaeth y gwr enwog hwnnw, yn 1814* (Aberystwyth 1937), 41-43

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20821138

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Arddull APA



Williams, M. R., (1997). ROWLANDS, GRIFFITH (1761 - 1828), llawfeddyg. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c5-ROWL-GRI-1761>

Diwydiannau

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodi gan
Llywodraeth Cymru
Governed by
Welsh Government